Swansea University
Prifysgol Abertawe

# Prifysgol Abertawe

## Nodyn Cyfarwyddyd Rheoli Gwastraff WMGN28:

- **Gwastraff meddyginiaethau arall (ac eithrio cyffuriau cytotocsig a sytostatig)**

(Bocs gwastraff clinigol sydd â chaead glas)

| | |
|---|---|
| Wedi'i ddiweddaru gan: | Ben Harris (Swyddog yr Amgylchedd) |
| **Cymeradwywyd gan:** | Teifion Maddocks (Rheolwr Cynaliadwyedd) |
| **Dyddiad creu:** | 09/11/2018 |
| **Dyddiad y fersiwn:** | 18/11/2025 |


| **Nodyn Cyfarwyddyd Rheoli Gwastraff WMGN28**<br>**Gwastraff meddyginiaethau arall; Nad yw'n cytotocsig neu'n sytostatig** | |
|---|---|
| Lleoliad lle cynhyrchir y gwastraff | Labordy neu glinig |
| EWC | 18 01 09 / 18 02 08 |
| Math | Categori Gwastraff<br>Rheoledig – gwastraff nad yw'n beryglus |
| Dull gwaredu | Wedi'i wahanu i'w losgi |
| Math o fin / bag | **Bocs clinigol melyn gwrymiog â chaead glas**<br>7 litr, 11 litr, 24 litr |

## Gofynion Dyletswydd Gofal

EWC 18 01 09 "Meddyginiaethau ac eithrio'r rhai hynny a nodwyd yn 18 01 08" (nad ydynt yn beryglus)
EWC 18 02 08 "Meddyginiaethau ac eithrio'r rhai hynny a nodwyd yn 18 02 07" (nad ydynt yn beryglus)

**Disgrifiad**; Meddyginiaethau gwastraff clinigol (nad ydynt yn cytotocsig neu'n sytostatig) o ofal iechyd pobl neu anifeiliaid, i'w llosgi yn unig.

Mae'n ofyniad cyfreithiol, dan y Rheoliadau Gwastraff Peryglus, i wahanu gwastraff peryglus o wastraff nad yw'n beryglus a sicrhau bod yr holl wastraff yn cael ei ddosbarthu'n gywir. Gall gwaredu gwastraff peryglus yn anghywir drwy ffrwd wastraff nad yw'n beryglus arwain at gosbau cyfreithiol ac ariannol sy'n dibynnu ar ddifrifoldeb y diffyg cydymffurfio. Mae Memorandwm Technegol yr Adran Iechyd 07-01: Rheoli Gwastraff Gofal Iechyd yn Ddiogel[1], yn darparu arweiniad cynhwysfawr ynghylch gwaredu gwastraff gofal iechyd yn unol â safonau diwydiant, a gofynion cyfreithiol, ac mae'n amlinellu'r system codau lliw a adnabyddir yn genedlaethol ar gyfer gwastraff gofal iechyd / clinigol.




**Ffigur 1 - Disgrifiad**

**Eitemau:**

Gwastraff meddyginiaethau nad yw’n cytotocsig neu'n sytostatig e.e. meddyginiaethau sydd wedi cael eu defnyddio wrth drin cleifion, megis rhai nad ydynt wedi'u defnyddio, neu wedi'u defnyddio'n rhannol, neu wedi dyddio;

- Tabledi
- Hufennau / eli
- Meddyginiaethau hylifol
- Clytiau meddyginiaeth
- Pecynnau profi

[1] Memorandwm Technegol yr Adran Iechyd 07-01: Rheoli Gwastraff Gofal Iechyd yn Ddiogel

- Moddion ffug

## Cyfarwyddiadau Gwaredu

**<u>Storio'n Fewnol</u>**

Rhaid i'r holl wastraff meddyginiaethau a amlinellir gael ei roi mewn bocs gwastraff clinigol 7 litr, 11 litr, neu 24 litr, sydd â **chaead glas.**



Ffigur 2 - Bin melyn gwrymiog â chaead glas

**Ni ddylai biniau sydd â chaeadau glas gynnwys gwrthrychau miniog.**

Gellir cael biniau â chaeadau glas, a llofnodi ar eu cyfer, o'r lleoliadau canlynol;

**Campws Singleton**

- Y Gyfadran Meddygaeth, Iechyd a Gwyddor Bywyd: Storfeydd ILS1

Ar gyfer unrhyw gyfadran neu uned gwasanaeth proffesiynol arall, e-bostiwch estates-waste@abertawe.ac.uk

**<u>Storio/Gwaredu Allanol</u>**

Ar gyfer gwaredu, gwnewch yn siŵr bod y caead wedi'i selio i'w gludo. Rhaid mynd â biniau llawn yn ôl i'r lleoliadau canlynol;

**Campws Singleton**

- Y Gyfadran Meddygaeth, Iechyd a Gwyddor Bywyd: Storfeydd ILS1

## Cost Gwaredu

Codir tâl am y gwasanaeth hwn, e-bostiwch estates-waste@abertawe.ac.uk am ragor o wybodaeth


Am ragor o arweiniad, e-bostiwch estates-waste@abertawe.ac.uk

## Ffurflenni a Labelu

Mae'r holl ffurflenni, labeli a chanllawiau gwastraff perthnasol ar gael yma

## Atodiad 1: Diagram Gwahanu a Dosbarthu Gwastraff[2]

Defnyddiwch y diagram llif canlynol i sicrhau eich bod yn defnyddio'r bin lliw cywir ar gyfer eich gwastraff




**DS:** Er bod y canllawiau hyn yn berthnasol yn benodol i wastraff o leoliadau clinigol a gofal iechyd, gellir eu defnyddio hefyd i lywio arferion gwastraff mewn amgylcheddau labordy eraill. Fodd bynnag, cyfeiriwch at y Nodiadau Cyfarwyddyd Rheoli Gwastraff (WMGN) perthnasol ar gyfer gwastraff peryglus a gwastraff nad yw'n beryglus arall.

[2] Memorandwm Technegol Iechyd 07-01: Atodiad 3